Safonau Gwasanaeth – Cyfranogiad Tenantiaid

Datganiad cenhadaeth Tai Ceredigion

“Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol.”

Safon

- Bydd Tai Ceredigion yn cynnig ystod lawn o opsiynau ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, a fydd yn cynnwys gwybodaeth glir i denantiaid am faterion perthnasol yn Tai Ceredigion.
- Bydd Tai Ceredigion yn cynnig ystod eang o ddulliau o gyfranogiad tenantiaid, ac yn cynnig cyfle iddynt roi adborth ynghylch y gwasanaethau a ddarparwn, trwy ddefnyddio’r opsiynau canlynol.
- Bydd Tai Ceredigion yn rhoi cyfle i bob tenant fynegi barn a chymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ynghylch materion penodol, gan gynnwys rheoli tai.
- Bydd tenantiaid yn cael cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiadau sy’n mynd rhagddynt yn y sefydliad.

Mae’r cyfleoedd i denantiaid gael eu cyfranogiad, dylanwadu a rhoi adborth yn cynnwys y canlynol:

Grŵp Monitro Tai Ceredigion	Llythyrau newyddion rheolaidd
Y Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod	Arolwg a holiaduron
Fforwm Cyswllt y Tenantiaid	Ffôn
Y Gynhadledd i Denantiaid	Postio diddoreb arbennig
Cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr	E-bost
Grwpiau ffocws	Y wefan
Arolygiadau o ystadau	Cyfryngau cymdeithasol
App TŷFi a gwasanaeth ar-lein	Sgyrsiau un i un (os yw hynny’n ymarferol)
Aelodaeth o’r Bwrdd	Aelodaeth cyfranddalwyr
Y gystadleuaeth arddio	Arolygon dros y ffôn

Nod

“Gwella ansawdd gwasanaethau rheoli tai a datblygu cymunedol ehangach, a gwella’r modd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu, trwy wella’r cyfle i denantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o redeg a datblygu Tai Ceredigion.”

Byddwn:

- Yn gwella’r gwasanaeth rheoli tai trwy gyfathrebu ac ymgynghori â’r tenantiaid.
- Yn datblygu diwylliant o gymryd rhan fel bod modd i denantiaid gyfrannu i bob agwedd ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Yn sicrhau bod tenantiaid yn gallu cymryd rhan yn llawn ar y lefel a ddewiswyd ganddynt, trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau.
- Yn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o gynllunio, gweithredu a monitro’r rhaglen o waith cynnal a chadw arfaethedig a thasgau atgyweirio o ddydd i ddydd.
- Yn cydweithio â’r gymuned ehangach ac asiantaethau partner er mwyn gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid a’r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae copi o’n Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ar gael o ofyn amdano, trwy ffonio 0345 606 7654 neu ebostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y safonau hyn eu hadolygu’n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd.